OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 4002

## Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001

### Terfynu aelodaeth

**14.**—(1) Mae aelodaeth person o fforwm, gan gynnwys y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd, yn terfynu pan ddigwydd un o'r canlynol:

(a) bod cyfnod yr aelodaeth yn dod i ben;

(b) bod yr aelod yn marw;

(c) bod yr Ysgrifennydd yn cael hysbysiad ysgrifenedig o ymddiswyddiad aelod;

(ch) bod yr awdurdod penodi yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i aelod fod yr amgylchiadau, ym marn yr awdurdod, o'r math pe byddai'r awdurdod wedi ystyried a fyddai'n penodi'r person fel aelod o'r fforwm byddai wedi'i rwystro rhag gwneud hynny gan ddarpariaethau rheoliad 8;

(d) bod yr awdurdod penodi, ar ôl ymgynghori â'r fforwm ynghylch y camau arfaethedig, yn rhoi hysbysiad i aelod o amgylchiadau penodol, sydd ym marn yr awdurdod yn ei gwneud yn ddymunol, er mwyn cynnal swyddogaethau'r fforwm yn effeithiol, fod y person o dan sylw yn peidio â bod yn aelod;

(dd) bod aelod yn cael ei ethol yn aelod o'r awdurdod penodi neu fod aelod yn cael ei benodi yn swyddog o'r awdurdod penodi neu, os yw fforwm wedi'i sefydlu gan fwy nag un awdurdod penodi, yn aelod o unrhyw un o'r awdurdodau hynny;

(e) bod aelod ym methu â bod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod o'r fforwm, neu gyfarfod o unrhyw bwyllgor o'r fforwm, dros gyfnod parhaus o 12 mis, oni roddwyd i'r aelod, yn dilyn cais ysgrifenedig i'r awdurdod penodi sydd wedi'i wneud o fewn y cyfnod hwnnw ac yn pennu'r rhesymau dros y cais, ganiatâd i fod yn absennol gan yr awdurdod penodi am gyfnod y gwêl yr awdurdod penodi'n dda, ac yn yr achos hwnnw nid yw'r cyfnod o 12 mis a bennir yn y paragraff hwn i gynnwys unrhyw gyfnod y mae caniatâd o'r fath i fod yn absennol yn berthnasol iddo.

(2) Rhaid i'r Ysgrifennydd hysbysu'r awdurdod penodi o unrhyw le gwag yn aelodaeth y fforwm nad yw'r awdurdod penodi yn ymwybodol ohono neu efallai nad yw fel arall yn ymwybodol ohono a rhaid i'r awdurdod penodi sy'n dod yn ymwybodol o le gwag o'r fath, yn ddarostyngedig i reoliad 5, benodi person i lenwi'r lle gwag hwnnw.

(3) Os etholir aelod o fforwm yn Gadeirydd neu'n Ddirprwy Gadeirydd o'r fforwm hwnnw, rhaid i'r awdurdod penodi, yn ddarostyngedig i reoliad 5, benodi person yn aelod o'r fforwm fel pe bai'r person a etholir yn Gadeirydd neu'n Ddirprwy Gadeirydd wedi peidio â bod yn aelod o'r fforwm.